y dinesydd

Mawrth/Ebrill 2000 | PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH | Rhif 255

# 'Llwyddiant Gwlad Fach'

Llongyfarchiadau mawr i S4C ar ennill ei phedwerydd enwebiad Oscar gyda'r ffilm *Solomon a Gaenor*, sy'n adrodd stori garu dymhestlog rhwng Iddew a Chymraes yng nghymoedd diwydiannol de Cymru ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Dyma'r ail ffilm a ariannwyd gan S4C i gael ei henwebu yng nghategori 'Y Ffilm Orau Mewn Iaith Dramor'. Y ffilm *Hedd Wyn* oedd yr un gyntaf, wrth gwrs, yn 1994. Y ddau enwebiad Oscar arall i S4C oedd *Yr Enwog Ffred* yn 1998 a *Chwedlau Caergaint* yn 1999 - y ddau wedi'u henwebu yng nghategori 'Y Ffilm Fer Animeiddedig Orau'.



*Ioan Gruffudd a Nia Roberts yn 'Solomon a Gaenor'*

Er nad enillodd *Solomon a Gaenor* yr Oscar, fel y dywedodd Cadeirydd S4C, Elan Closs Stephens, 'Nid methu cael Oscar wnaeth *Solomon a Gaenor*. Llwyddo wnaeth hi i ddangos bod gwlad fach yn gallu dweud straeon ei phobl wrth y byd.' Yn y llun, gwelir dau brif gymeriad y ffilm, Ioan Gruffudd a Nia Roberts.



Codwyd dros fil o bunnoedd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Llanelli 2000 yn y ddiweddaraf yng nghyfres *soirées* enwog Llys Tregarth, Parc y Rhath. Yn y llun gwelir trefnwyr y *soirée*, Hywel a Gwyneth Jeffreys yn cyflwyno siec i Garry Owen ar ran yr Eisteddfod. *Llun: Robin Griffith.*

**Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol *Y Dinesydd* nos Iau, 18 Mai 2000**
am 7.30pm yn Eglwys Bethel, Maesyderi, Rhiwbina.
Y mae'r cyfarfod yn agored i holl siaradwyr Cymraeg Caerdydd a'r cyffiniau agos.

**Sylwer!** Eich papur bro *chwi* yw'r *Dinesydd*. Dowch i ddangos eich cefnogaeth ac i fynegi eich beirniadaeth - bydd croeso i'r naill a'r llall! **Pwysig!**

# Y Dinesydd

**Mawrth/Ebrill 2000, Rhif 253. ISSN 1362-7546**

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Mai at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 26 Ebrill:**

**Newyddion y Fro:** Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 20708253)
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchg Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 20626811)
**Newyddion Ysgolion Cynradd:** Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 20756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Heol y Bont, Ystum Taf, Caerdydd (Ffôn: 20333090).
**Newyddion Ysgol Plasmawr:** Ms Rhian Morgan, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ffordd Pentre-baen, Tyllgoed, Caerdydd (Ffôn: 20405499).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 20564540).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol a newyddion cyffredinol at:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ. (20628754) **neu** Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gdns, Llwynbedw, Caerdydd (20693302).

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 20842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-20418270)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 20404906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................

.................................................. Cod Post: ....................

Rhif Ffôn: ....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................


.................................................. Cod Post: ....................

Rhif Ffôn: ....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 15** **Mawrth/Ebrill 2000**



**Ar Draws**

1. Casgliad o dai mewn wythfed rhan o filltir (5)
4. Duw'r Sais a'i gi yn cyfuno'n rhagorol (7)
8. 'Ti, Dduw unig ddoeth, y goleuni a'th gêl,
Tragywydd wyt Ti, nid ___ _____ ___ ___' c. J.G.J. (3,5,1'1)
10. Ofni dim helbulus, ond cadw ar yr wyneb (5)
11. Rhuodd Nico ar yn ail yn hollol (4)
12. Afon yn llifo'n ôl mewn pydew atgas (4)
16. Adda yn cael gradd a lle i fyw mewn mynachlog (5)
17. 'Yma mae beddrodau'n tadau,
Yma mae ___ _____ __ ___' (H.E.L) (3,5,2,3)
19. 'Mynnwn pe mynnai'r Hwn a wnaeth
Dy goch _______ siaced ddrud' (I.D. Hooson) (7)
20. Nyddu o gwmpas i bum cant am bedair awr ar hugain (2,3)

**I Lawr**

1. 'Ond ofer ___ ___ ___ ____
Ni ddawnsiet mwy - ac ar dy rudd
Roedd hiraeth am y gwynt a'r glaw' (I.D. Hooson) (3,3,3,4)
2. Codi sêt mewn heulwen (3)
3. Syr! Nid aflerwch yw mieri (6)
4. A fagla Now ar y cei? (6)
5. Dim candi amrywiol i'w gael yn y sêt fawr! (6)
6. Gwaith heb wy; heb forgrugyn yn Lloegr (9)
7. 'Cofia'n _____, ________ tirion,
Dy gyfiawnder fyddo'i grym' (H.E.L.) (5,8)
9. A oes naw llyn ger y pentref yma? (9)
13. Map lâl yn codi cwestiwn (3,3)
14. Marc yn dilyn siawns fel y cantorion hyn (6)
15. Tywyllu'r ffin mewn amgylchiadau hynaws (6)
18. Cwch gwael yn Lloegr (3)

**Atebion Croesair 14**

**Ar Draws:** 1. Telor y gwair; 8. Cread; 9. Sgwrsio; 10. Corffori; 11. Noson; 12. Nwyd; 14. Crib; 18. Ceirw; 19. Negyddol; 21. Anniddig; 23. Aloma; 24. Wn a dorraist. **I lawr.** 1. Tucacas; 2. Loetran; 3. Radio; 4. Gesail; 5. Achwynwr; 6. Ras; 7. Croen; 13. Yr Wyddfa; 15. Buddioli; 16. Moliant; 17. Yno glo; 18. Clais; 20. Gwawr; 22. Naw.

**Croesair Rhif 14**

Derbyniwyd wyth ymgais y tro hwn a saith ohonynt yn gywir. Yr enillydd yw Margaret Jones, 5 Heol Iscoed, Rhiwbina. Bydd tocyn llyfrau ar ei ffordd iddi yn fuan. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Idwal Hughes, Y Mynydd Bychan; E. Haydn Jones, Rhiwbina; Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd; Huana Simpson, Llansanwyr; Gwenda Hopkins, Llanisien a Heledd Hall, Treganna.

---

**Cystadleuaeth Mawrth/Ebrill 2000**: Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Glan-y-llyn (*Lakeside*), Caerdydd CF2 6DJ, erbyn 29 Ebrill.

---

Cofiwch ymweld â safle'r *Dinesydd* ar y We:
**http://www.dinesydd.uk/inux.net/**

## Calendr y Dinesydd

**Mercher-Iau, 19-20 Ebrill**
Theatr Bara Caws yn perfformio 'Paradwys Waed' gan Siôn Eirian yng nghanolfan Chapter, Caerdydd am 8.00 p.m. Swyddfa Docynnau: 029-20304400.
**Gwener, 21 Ebrill**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Gwasanaeth Gwener y Groglith dan arweiniad y Parchg Meurig Llwyd yn Eglwys Dewi Sant am 2.00 p.m.
**Iau, 4 Mai**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur: Noson Gartrefol, yn festri Capel y Methodistiaid, Radur, am 7.30 p.m.
**Sul, 7 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cymanfa Ganu dan arweiniad Alun Guy yn Eglwys Beulah, Rhiwbina, am 8.00 p.m.
**Llun, 8 Mai**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Allan â Ni'. Manylion pellach: 029-20759291.
**Llun, 8 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch: Helfa Drysor. Manylion pellach: 512016.
**Mercher, 10 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: 'Y Gadwyn', yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.
**Iau, 11 Mai**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Cynllun Uno Eglwysi Ymneilltuol yng Nghymru'. Sgwrs gan y Parchg Eifion Powell ym Methel, Maesyderi, Rhiwbina, am 7.30 p.m.
**Llun, 15 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Hanes y Dinesydd'. Sgwrs gan Robin Jones, yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.
**Mawrth, 16 Mai**
Cymrodorion y Barri: Noson y Llywydd (Dr Denzil Davies), yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m.
**Iau, 18 Mai**
Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol *Y Dinesydd* am 7.30 p.m. yn Eglwys Bethel, Maesyderi, Rhiwbina.
**Sadwrn, 20 Mai**
Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gyfun Glantaf: Helfa Drysor ym Mae Caerdydd. Manylion pellach: 029-20333090.
**Mercher, 24 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Rhiannon Rees, yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.
**Mercher, 7 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: 'Diddordebau', yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.
**Mercher, 7 Mehefin**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur: Allan â Ni - i Dŷ Tredegar. Manylion pellach: 029-20842946.
**Iau, 8 Mehefin**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Yr Eglwys a'r Ysgol'. Sgwrs gan Euros Jones Evans, ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, am 7.30 p.m.
**Gwener, 9 Mehefin**
Cymrodorion y Barri: Gwibdaith o amgylch Bae Caerdydd. Manylion pellach: 01446-732203.

*Er mwyn cynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ Ffôn: 029-20628754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*

## Cylch Cinio Cymraeg y Barri

Nos Fercher, 22 Chwefror, cafodd aelodau y Cylch gyfle i wrando ar Mr John Bevan yn trafod gwahanol agweddau ar astudio tafodieithoedd Bro Morgannwg. Canolbwyntiodd John ei sylwadau ar ardal y Coety ger Pen-y-bont ar Ogwr ym mlynyddoedd cynnar y pumdegau. Yn y cyfnod yma roedd rhai o frodorion cynhenid yr ardal yn dal i 'whilia Cymrâg'.

## Llongyfarchiadau

- i Rhiannon Michael ar ennill Ysgoloriaeth Evan Morgan i Brifysgol Cymru Aberystwyth, ac i Eleri James ar ennill Gwobr Deilyngdod Evan Morgan, hefyd i Aberystwyth.
-i Glen a Jennifer Pappas, Rhiwbina ar enedigaeth eu merch, India Fflur, yn Ysbyty'r Brifysgol ar 14 Ionawr.
- i Moelwyn Jones ar gael ei benodi'n Bennaeth Materion Cymreig Swyddfa'r Post, ar ôl bod yn bennaeth cysylltiadau corfforaethol a chyhoeddus ym mhencadlys Bwrdd Swyddfa'r Post Cymru yng Nghaerdydd am 12 mlynedd.

## Techno!eg a Llenyddiaeth

Bydd cynhadledd gyffrous a phellgyrhaeddol ar dechnoleg a llenyddiaeth yn cael ei chynnal gan Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, ddydd Sadwrn, 27 Mai 2000.

Ymhlith y pynciau a drafodir fydd y berthynas rhwng llenyddiaeth a llythrennedd, print, ffilm, technoleg sain, y we, a pherfformiadau aml-gyfrwng. Bydd y siaradwyr yn cynnwys Jean-Jacques Lecercle, Damian Walford Davies, Grahame Davies, Helen Fulton, Jerry Hunter, Ceri Anwen James, Gwyneth Lewis, Ceri Sherlock, a bydd Ifor ap Glyn yn cynnal perfformiad aml-gyfrwng o'i ddilyniant o gerddi gwobrwyedig, 'Golau yn y Gwyll'.

Bydd y cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. Cost mynychu'r gynhadledd yw £15 (£10 i fyfyrwyr a'r di-waith), sydd yn cynnwys coffi, cinio bwffe a gwin. Am raglen lawn a ffurflen cysylltwch â Dr Angharad Price, Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, CF10 3XW (ffôn: 029 20874843; e-bost: cymraeg@caerdydd.ac.uk), neu edrychwch ar y manylion ar y we (http://www.cf.ac.uk/uwc/cymraeg/cynhadledd). Croeso cynnes i bawb!

## Beicio ar gyfer Ymchwil Arennau

Yn ystod gwyliau'r Pasg eleni, bydd Rhys Owen a Jason Lugg yn teithio ar eu beiciau o Gaergybi i Gaerdydd. Bwriad y daith yw codi arian at elusen Ymchwil Arennau. Os hoffech gefnogi'r bechgyn, gallwch anfon cyfraniad at rieni Rhys, sef Arwel a Non Owen, 9 Dan y Coed Close, Cyncoed, Caerdydd CF23 6NJ.

## Colli Joan Lewis

Trist iawn i Gymry Cymraeg Caerdydd ac eraill yn y brifddinas fu clywed am farwolaeth Mrs Joan Daphne Lewis (gynt Richards), 29 Pantbach Avenue, Yr Eglwys Newydd. Bu Mrs Lewis farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 19 Ionawr.

Roedd Joan Lewis yn enedigol o Langennech, sir Gaerfyrddin. Addysgwyd hi yn Ysgol Ramadeg y Merched, Llanelli, a Choleg y Brifysgol, Caerdydd, lle graddiodd yn 1947 gydag anrhydedd uchel yn y Gymraeg. Bu'n athrawes ymroddgar a chydwybodol am gyfnod yn Ysgolion Bryntaf a Choed-y-gof. (Roedd ganddi ddawn ac amynedd i ddysgu plant llai abl a'r rhai hynny ag anghenion arbennig.) Gwyddys hefyd fod ganddi ddiddordeb dwfn mewn botaneg a cherddoriaeth - roedd yn bianydd medrus. Gwnaeth Mrs Lewis lawer o waith cyfieithu i'r Gymraeg i'r Amgueddfa Genedlaethol dros y blynyddoedd yn ogystal â gwaith testuno tapiau i'r Amgueddfa Werin. Bu hefyd yn arholwr papurau 'Lefel A' i'r Cyd-Bwyllgor Addysg.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i phriod, D. Glyn Lewis, ei merch Ceirios Best, a'i wyrion Iwan a Daniel yn eu profedigaeth.

## Ysgol Pwll Coch

Agorwyd adeilad newydd Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn swyddogol ar Ddiwrnod Santes Dwynwen, 25 Ionawr, gan Rhodri Morgan. Daeth nifer o ffrindiau'r ysgol a swyddogion y Cyngor Sir ynghyd yn neuadd yr ysgol i rannu yn y dathlu. Cyflwynwyd llwy serch i Rhodri Morgan i ddathlu'r achlysur pwysig.

Annwyl Olygydd,

## Mwy am Mr Gwyn Lewis Davies

Gair o ddiolch am deyrnged E. D. Evans "*Cofio Gwyn Lewis Davies ('Ap Lewsyn'; 1906-99)*" a gyhoeddwyd yn *Y Dinesydd* (Rhifyn Rhagfyr/Ionawr 1999/2000). Bu'n fraint i mi adnabod Mr Gwyn Lewis Davies am dros ddeng mlynedd ar hugain, h.y., o 1967 pryd yr ymaelododd ei briod, Mrs. M. E. Davies, yn y Tabernacl - ymaelododd yntau yn Ebeneser. Fel y mynegwyd yn y gwerthfawrogiad, teithiodd Gwyn Lewis Davies ar draws y byd. Cofiaf amdano yn fy holi y tu allan i'r Tabernacl o ba le y cefais fy het ffwr, gan ei fod yntau am het debyg gogyfer â'i ymweliad â'r Undeb Sofietaidd. Yn dilyn ei daith cawsom lu o storïau ganddo am ei brofiadau yn y lleoedd y soniodd Fitzroy Maclean amdanynt yn ei lyfr, *Eastern Approaches*, sef Bukhara, Tashkent, ayb., a storïau Gwyn wedi eu lliwio gan ei amryw brofiadau o atgyweirio'r plymio yn ystafelloed ymolchi gwahanol westyau!

Tua deng mlynedd yn ôl cefais wefr wrth ddarganfod i Gwyn a minnau grwydro llwybr tebyg i'n gilydd yn ein bywydau cynnar. Cyn hyn, ni ddychmygais mai ef oedd cyd-awdur y papur cemegol o'r *Journal of the Chemical Society* am y flwyddyn 1940 y bûm yn ei astudio tra'n paratoi fy nhraethawd M.Sc. yn 1955. Cyd-awdur a chynghorydd Gwyn Lewis Davies ar y papur oedd D. P. Evans, a oedd ar y pryd yn aelod o adran ymchwil fyd-enwog y Dr Herbert Ben Watson yng Ngholeg Technegol Caerdydd ar gemeg organig-ffisegol. (Gyda llaw, gorffennodd D. P. Evans ei yrfa alwedigaethol yn Bennaeth Politechnig Cymru, Trefforest - Prifysgol Morgannwg erbyn hyn.) Oherwydd anawsterau yn y Coleg Technegol gorfu i mi wneud rhai o'r arbrofion cemegol ar gyfer fy M.Sc. yn nhŷ gwydr fy nghartref yn Woodville Road, Cathays. Cefais hi'n dra diddorol i Gwyn hefyd wneud ei arbrofion yntau yn ei gartref yn Rhws - yn yr ystafell ymolchi!

Bu Gwyn Lewis Davies a minnau yn dra ffodus o gael ein dylanwadu gan hynawsedd, brwdfrydedd ac egwyddorion H. B. Watson (1894-1975), a addysgwyd yn Ysgol John Bright, Llandudno cyn efrydu a darlithio mewn cemeg ym Mangor, ac wedyn ei benodi'n bennaeth Adran Gemeg Coleg Technoleg Caerdydd yn 1931. Gosododd dylanwad a gwaith Watson sail deilwng gogyfer ag UWIST y dyfodol. Er cymaint ei gyfraniadau safonol, ni chafodd H. B. Watson y gydnabyddiaeth a haeddai, sef ei ethol yn Gymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol (FRS), efallai am iddo awduro llythyr heddychol mewn cylchgrawn tua ddechrau'r Ail Rhyfel Byd. Serch hynny, gadawodd Watson ei ôl, a gwefreiddiol i mi yn 1988, wrth gyrraedd Cynhadledd Gemegol Gogledd America yn Toronto i draddodi darlith ar 'electrodau mesur ionau', oedd clywed Americanwr yn darlithio ar "Ddylanwad H. B. Watson ar Gemeg Organig-Ffisegol". Yn ystod ei ymddeoliad cymerodd Watson at bregethu'r Gair o bulpudau'r Eglwys Bresbyteraidd - yr oedd ganddo radd B.D. (Llundain) ynghyd â'i D.Sc. (Cymru).

Fel y mynegwyd gan Mr E. D. Evans yn ei deyrnged, ymroddodd Gwyn Lewis Davies i fyd llawer mwy eang na gwyddoniaeth. Ond bu'r ddisgyblaeth a'r profiad cemegol yn gefndir ac yn gymorth iddo. Felly, pan fu farw ei briod yn 1973, trodd Gwyn ati i fod yn fedrus yn y gelfyddyd o goginio ynghyd ag ymgymryd at orchwylion y gegin a'r tŷ, a hynny yn gwbl broffesiynol. Cofia Gwyneth a minnau y *coq au vin* gorau a gawsom erioed, ac wedi ei goginio a'i osod ar y bwrdd gan Gwyn ei hun yn ei wisg gogyddol wen, ynghyd â'r het wen briodol. Eisteddodd i fwyta gyda ni a'i westion eraill - y diweddar gyfeillion annwyl Arwel ac Enid Hughes - a phopeth yn drefnus i'r eithaf!

Yr eiddoch yn ddiffuant,

**Yr Athro J. D. R. Thomas, Wrecsam**

## CYLCH LLYFRYDDOL CAERDYDD

Yn ein cyfarfod ar 18 Chwefror, aethpwyd â ni gan yr Athro Jane Aaron i borfeydd a oedd yn anghyfarwydd i'r rhan fwyaf ohonom, sef gwaith llenyddol pump o ferched yn ystod chwarter ola'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru. Byddai'n ddiddorol gwybod faint o'i chynulleidfa a glywsai am fwy nag un ohonyn nhw, sef Cranogwen (Sarah Jane Rees, 1839-1916), y golygydd a'r bardd o Langrannog, Ceredigion.

Cranogwen fu'r amlycaf o'r pump, a hynny'n enwedig wrth iddi sefydlu a golygu'r cylchgrawn ar gyfer merched, *Y Frythones*, o 1878 i 1891. Yn unol ag enw'r cylchgrawn, ei bwyslais oedd ar gyhoeddi gweithiau merched.

Y nesaf oedd Ann Rees a aned yn Rhydlewis yn 1862, awdures storïau, ysgrifau a cherddi. Er ei sensitifrwydd, doedd dim byd meddal o'i chwmpas. Yna, Sarah Maria Saunders (yn ddiddorol iawn, modryb trwy briodas i Mrs Mari Ellis, a oedd wedi agor ein rhaglen y tymor hwn fis Medi diwethaf), awdures straeon am ferched y nodweddid ei chymeriadau gan gymeriad cryf a thröedigaeth.

Cefndir digon gwahanol fu i'r ddwy arall. Er mai o un o deuluoedd gwerin Môn yr hanai Mary Oliver Jones, priododd i mewn i ddosbarth cymdeithasol llawer mwy breintiedig yn Lerpwl. A'r un modd, dyna oedd cefndir y merched yr ysgrifennai amdanynt: cymeriadau, fel hithau, a gychwynnodd eu hanes yng nghanol cefn gwlad Cymru ac a ddringodd i lefel gymdeithasol uwch - a phob un yn bur ei chymeriad. Gwyddai sut i ysgrifennu stori; ac ymddangosodd nifer ohonynt yn *Y Genedl Gymreig*, yr wythnosolyn radicalaidd a gychwynnodd yn 1877. Fel eiddo'r chwiorydd eraill, roedd moeswersi'n britho'i storïau, gyda phwyslais arbennig ar yr egwyddor ei bod yn rhaid i bob Cymraes ddioddef.

Un o flaen ei hoes oedd Winnie Parry, awdures y nofel *Sioned*, ac un a gafodd gefnogaeth arbennig gan Owen M. Edwards. Yn wahanol i'r arwresau yng ngweithiau'r lleill, diddorol sylwi nad merch grefyddol yw prif gymeriad y nofel hon. Deil yn ddirgelwch pam y cefnodd yr awdures ar Gymru gan fynd i Loegr i gadw gwesty yn Bexhill-on-Sea.

Noson anarferol, a aeth â ni ar drywydd pump o ferched anarferol Cymru, a gyfrannodd yn eu ffyrdd eu hunain i lên Cymru yn ystod chwarter ola'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond a aeth yn angof yn ein plith ni erbyn hyn.

**Havard Gregory**



*Dyma lun o dri aelod diweddaraf staff Adran Addysg a Hyfforddiant Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Penodwyd Arwel Jones (o Nefyn yn wreiddiol) yn Uwch Swyddog Addysg. Bydd Gwenno Siencyn (o Benmynydd ger Llanelli) yn delio ag ymholiadau cyffredinol ac ochr weinyddol gwaith yr adran, a Bethan Griffiths (o Gaerffili) yn gweithredu'r cynllun grantiau i awdurdodau lleol. Pob dymuniad da iddynt yn eu swyddi newydd.*

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## EBENESER, CAERDYDD

Fore dydd Mercher, 26 Ionawr, cynhaliwyd Cwrdd Chwarter Cyfundeb Dwyrain Morgannwg yn Ebeneser. Daeth cynulleidfa anghyffredin o dda i wrando ar Ysgogydd Cenhadol Undeb yr Annibynwyr, y Parchg Hmar Sangkhuma, yn annerch. Fe'n hanogodd i ystyried ein cenhadaeth fel eglwysi o ddifrif ac i ddefnyddio'r doniau sydd gan ein haelodau. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr David Parry, Abertridwr.

Braint inni fel eglwys oedd cael bod yn dystion i fedydd **Siôn Patrick O'Brien** fore Sul, 6 Chwefror. Y mae Siôn yn fab i Patrick a Mirain O'Brien ac yn frawd i Ffion.

Llawenydd mawr i ni ddechrau mis Chwefror oedd derbyn aelodau newydd i'n plith sef Hywel a Delyth Davies. Croesawn hwy yn gynnes i'n plith ynghyd â'i merch Becca.

Bu criw da o aelodau Ebeneser ar y Goleulong ym Mae Caerdydd ddydd Mercher, 9 Chwefror, gan fod oedfa gymun yn cael ei chynnal yno gan ein gweinidog. Y mae oedfa gymun Gymraeg yn cael ei chynnal ar y Goleulong ar yr ail ddydd Mercher o bob mis am hanner dydd.

Cafwyd oedfa arbennig nos Sul, 20 Chwefror. Gwahoddwyd Cymdeithas Gristnogol Gymraeg y myfyrwyr i gynnal gwasanaeth. Cafwyd arweiniad rhagorol ganddynt ac oedfa i'w chofio.

## BETHEL, RHIWBINA

Yn ystod yr oedfa fore Sul, 13 Chwefror, bedyddiwyd **Osian William** gan y Gweinidog, y Parchg Evan Morgan. Mae Osian yn fab i Angela a Mark Parry Lowther, Ffordd Cae Mawr, Rhiwbina ac yn frawd i Elan Mai a Mali.

Y cyfarfod nesaf ym Methel ar fore Mawrth (10.30 a.m) fydd Ebrill 18 - Myfyrdod ar y Pasg a Chymundeb. Mae croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod hwn.

## EGLWYS Y CRWYS

'Digwyddodd darfu megis seren wib' meddai Williams Parry yn un o'i gerddi; felly hefyd gyffro y milflwydd newydd. Erbyn hyn mae gweithgareddau'r Capel yn ôl i'w patrwm arferol. Diolchwyd am fendithion dechrau blwyddyn newydd gyda chwrdd gweddi a drefnwyd gan Mrs Mari Lloyd-Williams a'r Gweinidog. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan aelodau'r Gymdeithas. Mewn cyfarfod arall o dan nawdd y Gymdeithas cafodd yr aelodau noson gofiadwy yn gwrando ar gyflwyniad radio o'r ddrama fer 'O Law i Law', cyfaddasiad Huw Davies o nofel enwog T. Rowland Hughes. Dywedwyd gair am gefndir yr awdur gan yr Athro J. Gwynfor Jones a chyflwynwyd y noson gan Mr Beni Harries. Y Gymdeithas Ddrama oedd yn gyfrifol am y trefniadau ar y noson.

Y Prifardd T. James Jones oedd gŵr gwadd y Grŵp Merched ym mis Chwefror, a chafwyd noson ddifyr iawn ganddo yn sôn am ei brofiad gydag 'Ambell i Ddrama!' Ddydd Mercher, 19 Ionawr, Mr Dan Bowen oedd y siaradwr gwadd yn y Froderfa. Aeth Dan ar drywydd ei brofiad ym myd diwydiant, mewn gyrfa a'i gwelodd yn ymsefydlu am gyfnod yng Nghanolbarth Lloegr. Yr un prynhawn cafodd Cylch y Chwiorydd gyfle i wrando ar Mrs Kathleen Wood a Mrs Myfanwy Jarman yn trafod rhai o hen gylchgronau Cymru. Bythefnos yn ddiweddarach Mr Delwyn Richards a ddiddanodd y Froderfa gyda sgwrs addysgiadol ar gyfraniad peirianwyr o Gymru i ddatblygiad diwydiannol ar draws y byd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn absenoldeb Mrs Valmai Griffiths, Mrs Olfa Rees a ddaeth i'r adwy i gynnal prynhawn difyr gyda Chylch y Chwiorydd.

Ganol mis bach collwyd o blith yr aelodau **Mrs Mary Burrows**, a hithau wedi cyrraedd yr oedran teg o gant oed. Cafodd y fraint brin o fyw mewn cyfnod o dair canrif. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolch am ei bywyd yng Nghapel y Crwys brynhawn Llun, 21 Chwefror.

## MINNY STREET, CAERDYDD

Bu farw tair o'n haelodau yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn: **Mrs Sally Davies**, **Mrs Lenorah Rees** a **Miss Myfanwy Roberts**. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â theuluoedd a ffrindiau'r tair.

Bu'r Gymdeithas yn dathlu Gŵyl Ddewi yng ngwesty'r Manor Park nos Fawrth, 22 Chwefror. Cafwyd gwledd i'r bola a'r glust yng nghwmni'r gwesteion, Ann a Zac Davies.

Croeso cynnes i ddau faban newydd: **Dafydd**, mab bach arall i Jennifer a David Rees ac ŵyr i Mrs Dilys Smith a **Tomos Jams**, mab bach arall i Non a Steve Wilshaw ac ŵyr i Aled a Menna Gwyn. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r ddau deulu.

Dymunwn yn dda i'n Gweinidog, y Parchg Eifion Powell, ac yntau wedi torri asgwrn yn ei droed ac felly mewn plastr ar hyn o bryd!

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

Mae'n bleser gallu croesawu nifer o aelodau newydd i'n plith; John a Gwen Emyr, Chris ac Angharad Wooley, Huw Pritchard a Hywel George. Gweddïwn y byddant yn gallu cyfrannu'n helaeth i waith yr eglwys, ac y byddant yn cael cymorth yn eu cerddediad ysbrydol drwy'r gymdeithas a'r weinidogaeth.

Cydymdeimlwn â'r Parchg Gareth Davies ar golli ei chwaer yn ddiweddar.

## EGLWYS DEWI SANT

Roedd 11 Ebrill 1940 yn ddyddiad pwysig i Selwyn a Margaret Jones, dau o aelodau mwyaf ffyddlon Eglwys Dewi Sant. Diwrnod eu glân briodas oedd hwnnw, yn heulwen un o ddyddiau du y rhyfel. Eleni maen nhw'n dathlu eu priodas aur, a'r ddau'n edrych mor ifanc ag erioed. Estynnwn ein llongyfarchion cynhesaf i'r ddau.

## COLLI ELWYN RICHARDS

Yn dawel, ar 12 Chwefror, bu farw Mr Elwyn Richards, ar ôl cystudd blin a wynebodd gyda'r dewrder mwyaf. Er yn aelod o Eglwys Sant Helen, braint oedd cael ei gwmni yn gyson yn ein hoedfaon ar y Sul yn Eglwys Annibynnol y Barri. Yn brifathro cyntaf Ysgol Sant Ffransis ac wedyn Ysgol Sant Baruc, Y Barri, bu'n fawr ei barch gan ei gyd-weithwyr a chan genedlaethau o blant. Bu hefyd yn fawr ei ddylanwad yng nghylch Cymry'r Barri — yn gyn-lywydd y Cymrodorion, ac yn frwd i gymell oedolion i ddysgu'r iaith drwy gynnal dosbarthiadau i ddysgwyr. Bonheddwr caredig a gwerthfawrogol o bob cymwynas. Diolchwn i Dduw am ei fywyd a'i waith. Cydymdeimlwn yn fawr iawn â Mrs Doris Richards, Carys, Gwenda a'u teuluoedd.

**Parchg Beti Wyn James**

# YSGOL GLANTAF

## Paris yn y Gwanwyn

I barti o arlunwyr a rhai a wyddai'r gwahaniaeth rhwng Picasso a pannini, roedd taith gelf Glantaf i Baris yn llawn syndod a datguddiadau.

Hen orsaf drenau ar lan afon Seine yw'r Musée d'Orsay, a'r cloc mawr yn dal yn amlwg yn y prif neuadd. Mae'r rhan ganolog yn cynnwys nifer o gerfluniau o'r cyfnod 1840-1875, sydd yn arwain at arddangosfa newydd o du mewn y tŷ opera enwog. Mae gweddill ystafelloedd ac arddangosfeydd yr amgueddfa yn arwain oddi ar y brif eil megis tyllau cwningod, ond mae'n hawdd darganfod adran sydd at eich dant.

'Y Gusan' yw un o gerfluniau enwocaf Auguste Rodin, ac mae hwn a nifer o'i gerfluniau eraill i'w gweld yn Amgueddfa Rodin. Yn ogystal â hyn mae yna arddangosfeydd manwl a diddorol yn dangos sut mae cerflun clai yn cael ei droi i mewn i strwythur marmor neu fetel. Wedi ei leoli yng nghanol gerddi prydferth a thawel, mae'n hawdd anghofio eich bod yng nghanol prifddinas brysur Ffrainc.

Gwrthgyferbyniad llwyr oedd adeilad metel amryliw Canolfan Pompidou. Y tu mewn gwelsom arddangosfa o waith o ddechrau'r ugeinfed ganrif hyd at heddiw; o waith Picasso a Derain i arlunwyr ifainc cyfoes. Efallai na fyddech yn ystyried pibell paent oren symudol, pymtheg troedfedd o uchder yn 'gelf', ond mae'r arddangosfa hon yn llawn gweithiau diddorol, ac yn bennaf yn wahanol.

Pan ddywedir yr enw Pablo Picasso mae nifer o bobl yn meddwl am ddarluniau cymhleth, annaturiol; ond mae'r amgueddfa yn cyfleu ochrau gwahanol i'w waith, cerfluniau, ffotograffau a chrochenwaith; agweddau gwahanol o'i ddoniau celfyddydol. Mae hon yn amgueddfa werth ymweld â hi os ydych am ddysgu mwy am un o arlunwyr mwyaf dylanwadol yr ugeinfed ganrif.

Gorffennodd y daith ag ymweliad i amgueddfa Salvador Dali, yn agos i Sacre Coeur. Nid yw'r amgueddfa hon yn addas ar gyfer y rhai sydd yn wan eu calon, ond mae'n sicr yn dangos ochr arall i fyd celf yr ugeinfed ganrif. Mae Dali yn enwog am ei weithiau swreal, ond mae'r arddangosfa breifat yn esbonio'r rheswm y tu ôl i nifer o'i weithiau megis y clociau sydd yn ymdoddi yn yr anialwch. Cewch olwg ar bersonoliaeth arlunydd oedd yn hoff o gyfleu syniadau a theimladau a oedd yn cael eu gwahardd yn y gymdeithas.

Mae'n anodd credu i ni weld cymaint â hyn mewn penwythnos, ond rwyf yn gallu dweud yn bendant i'r profiad fod yn un anhygoel.

**Joanna Campbell**

## Gŵyl Glantaf

Unwaith eto roedd Gŵyl Glantaf ar y gorwel, a daeth yr amser i roi'r sglein olaf ar y cystadlaethau a gwneud yn siŵr fod pob dim yn ei le. Roedd y paratoadau a'r brwdfrydedd wedi bod yn mynd ymlaen ers dechrau'r tymor; roedd ystafelloedd ymarfer yn orlawn gyda disgyblion yn gwneud gwahanol bethau o'r dawnsio disgo i ddynwared grŵp pop. Roedd yr holl baratoadau yn arwain at ddau ddiwrnod o gystadlu yng Ngerddi Sophia. A'r cwestiwn ar wefusau pawb oedd pwy fyddai pencampwyr yr ŵyl eleni?

Roedd rhaid i bob llys geisio dangos ei ddoniau mewn amryw o feysydd, o'r unawd bechgyn i'r cae rygbi, o'r gân Ffrangeg i addurno teisennau. Ar y dydd Iau cafodd pawb y cyfle i ddangos eu talentau ar y meysydd chwaraeon. Roedd y brwdfrydedd ymysg y plant yn amlwg wrth iddynt geisio sgorio cynifer o bwyntiau â phosib i'w llys. Cafwyd cystadleuaeth agos ond ar ddiwedd y dydd llys Dyfrig unwaith eto oedd pencampwyr y chwaraeon.

Ddydd Gwener coronwyd y gweithgareddau gydag eisteddfod fawreddog. Roedd y neuadd yn atseinio â lleisiau'r disgyblion yn cefnogi'u llysoedd yn frwd. Cafwyd amrywiaeth o gystadlaethau, traddodiadol a modern. Uchafbwynt y diwrnod oedd cadeirio prif lenor eisteddfod Glantaf - Bethan Nia Thomas o lys Dewi. Ar ddiwedd diwrnod prysur o gystadlu daeth yr amser i ddatgelu'r marciau terfynol. Enillwyr yr Eisteddfod am y tro cyntaf ers pum mlynedd oedd llys Illtud a nhw hefyd oedd pencampwyr Gŵyl Glantaf.

**Mari Osborne**



*Bethan Nia Thomas - enillydd Cystadleuaeth y Gadair a'r Rhuban Glas Offerynnol Hŷn, Nia Thomas - enillydd y Fedal Ddrama, Y Prifathro Mr Huw Thomas, Alex Priesley - enillydd y Tlws Saesneg, Selyf Shapey - enillydd y Rhuban Glas Offerynnol Iau, Owain Williams - enillydd y Tlws Iau. Llun: Robin Griffith*



*Arweinwyr llys Illtud gyda phennaeth y llys Miss Meleri Wyn Jones, a'r Prifathro, Mr Huw Thomas Llun: Robin Griffith*

## Sioe Ffasiynau Glantaf

Pleser oedd gweld Neuadd Ysgol Glantaf dan ei sang nos Wener, 11 Chwefror, pan gynhaliwyd am y tro cyntaf gystadleuaeth Sioe Ffasiynau y pedwar llys.

Ar ôl pedwar diwrnod o drefniadau ac ymarferion dwys, yn aml tan saith o'r gloch yr hwyr, daeth y rhieni, yr athrawon a'r disgyblion ynghyd i fwynhau sioe o safon. Gwnaeth bron i gant o blant o Flynyddoedd 7-13 geisio efelychu symudiadau gosgeiddig Naomi Campbell a'i thebyg, ac yn sicr ni siomwyd y gynulleidfa gan frwdfrydedd, mwynhad a phroffesiynoldeb y disgyblion ar lwyfan y Catwalk. Tasg anodd oedd beirniadu ond penderfynwyd cynnig pwynt i bawb a gymerodd ran, a'r llys buddugol oedd Dyfrig.

Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Glantaf yn ddyledus i'r siopau canlynol am eu cefnogaeth: Y C Sports, Heol-y-Crwys, Top-Shop, Top-Man, New Look, Moss Brothers, Warehouse, Pilot, Bay Trading Company, Hooked on Country.

Fel cofnod o'r noson mae fideo ar werth am £7.00. Cysyllter â Mrs G. C. Jones.

**Gaynor C. Jones**



*Rhai o fodelau'r Sioe Ffasiynau*

## Ymweliad y Llydawyr

Petaech chi wedi cerdded hebio i Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf am hanner awr wedi un ar ddeg yr hwyr ar 11 Chwefror, byddech wedi cael eich syfrdanu gan olygfa ryfedd iawn. Byddech wedi gweld grŵp o ddisgyblion yr ysgol yn sefyll yn oerfel y maes parcio, yn disgwyl am eu golwg gyntaf o'u cyfnewidion Ffrengig. Oherwydd, ers pedair blynedd ar ddeg bellach, mae Glantaf wedi trefnu teithiau cyfnewid rhwng yr ysgol ac Ysgol St Sebastien yn Landerneau yn Llydaw.

Wedi iddynt gyrraedd, roedd gan yr ymwelywyr wythnos fer iawn o'u blaen yma yng Nghymru. Mae'r wythnos ei hun yn gyfle i'r disgyblion tramor hyn fwynhau eu hunain yn ein diwylliant ni, a chael profi tipyn o'r croeso Cymreig. Cafodd y Llydawyr gyfle i brofi holl ryfeddodau Caerdydd a'r trefi cyfagos. Fe ymwelson nhw â Chastell Caerdydd, Techniquest, Sain Ffagan a phwll nofio Abertawe i enwi rhai, ac er bod pawb yn bryderus ar y noson gyntaf wrth gyfarfod am y tro cyntaf, erbyn diwedd yr wythnos roedd pawb wedi ymlacio ac wedi dod i adnabod ei gilydd. Wrth godi llaw ar y bws ar ddiwedd yr wythnos, roeddem yn teimlo fel petaen ni'n ffarwelio â hen ffrindiau. A chyn i'w bws ddiflannu o'r golwg, dyma bawb yn dechrau edrych ymlaen at fis Ebrill pryd y cawn ni, ddisgyblion Glantaf, ymweld â nhw yn eu gwlad eu hunain ac ymarfer ein Ffrangeg.

Fe es i a'm ffrind gorau ar y daith gyfnewid y llynedd oherwydd bod y niferoedd yn brin. Mae'r ffaith fy mod i'n mynd yn ôl eleni yn dystiolaeth ynddi ei hun o faint o hwyl sydd i'w chael.

**Emyr James**

## CYLCH CINIO CYMRAEG CAERDYDD

Un o'r cylchoedd niferus ar hyd a lled Cymru o ddynion sy'n ymddiddori mewn pethau'n ymwneud â Chymru a'r Gymraeg yw Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Amcan y Cylch yw hybu Cymreictod ymhlith Cymry Cymraeg a ddaw i gysylltiad â'r cyhoedd wrth eu gwaith ac yn eu swyddi. A pha ffordd well o adnabod ein gilydd nag wrth bryd o fwyd! Tua 40 o aelodau sydd yn y Cylch ac rydym yn awyddus i gynyddu'r nifer. Estynnir croeso cynnes i aelodau newydd.

Bu'n arfer gennym ers blynyddoedd i gyfrannu at elusennau sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg, megis yr Urdd, Mudiad Ysgolion Meithrin, *Y Dinesydd*, a'r Eisteddfod Genedlaethol ac i noddi dysgwr neu ddysgwraig ifanc o'r chweched dosbarth i ymweld â'r Eisteddfod neu Wersyll yr Urdd yn ystod yr haf.

Yn y llun, mae Miss Kate Allen, cyn-ddisgybl o Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd a Miss Laura Elaine Barnfather o Ysgol Uwchradd Caerdydd, gyda Mr Emyr Currie-Jones (Llywydd y Cylch) a'r Athro Gwynedd Pierce. Noddwyd Kate a Laura gan y Cylch y llynedd. Bu eu hathrawesau Cymraeg Mrs Nerys Roberts a Ms Bethan Batten yn y cinio hefyd.

Roedd Laura yn dilyn nifer o ddisgyblion eraill o'i hysgol, gan gynnwys ei chwaer Sarah sy'n gweithio fel athrawes Ddrama a Chymraeg yn Ysgol Uwchradd y Drenewydd erbyn hyn.

Os oes gennych awydd ymuno â ni, cysylltwch â'r Ysgrifennydd: Tony Couch - ffôn: 20753625, e-bost: tony.couch@talk21.com



## Coffáu Griffith John Williams

Mae'n fwriad gan rai yn ardal Llanbedr Pont Steffan goffáu yr Athro Griffith John Williams, yr ysgolhaig mawr a fu'n bennaeth Adran y Gymraeg yn y Brifysgol yng Nghaerdydd, ynghyd â'i frawd, D. Matthew Williams, y gwyddonydd a'r addysgwr amlwg. Ganed y ddau yng Nghellan, ger Llambed, a'r bwriad yw codi cofeb iddynt mewn man amlwg yn eu cynefin. Mae'n fwriad hefyd goffáu'r llyfrgellydd dylanwadol, R. Alun Edwards, yn yr un modd. Gellir anfon sieciau, yn daladwy i 'Coffáu Enwogion', at Mrs Irene Williams, Cae'r Nant, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion.

# YSGOL PLASMAWR

## EISTEDDFOD YSGOL PLASMAWR 2000

Cafodd ein disgyblion foddhad mawr yn ein Heisteddfod Ysgol eto eleni a hynny am reswm arbennig. Ehangwyd ar nifer y cystadlaethau am ein bod bellach yn cofrestru disgyblion yn fertigol. Hynny yw, mae disgyblion o Flynyddoedd 7-10 ym mhob dosbarth. Gan eu bod wedi eu cofrestru fesul llys roedd yn golygu eu bod yn medru ymarfer gyda'i gilydd yn eu dosbarth cofrestru. Cafodd y beirniaid wledd i'w llygaid wrth weld llysoedd Curig, Crwys, Nantlais ac Elfed yn perfformio eu dawns "creadigol", cerddorfa dwp a'u grwpiau llefaru Cymraeg a Saesneg. Braf oedd gweld cymysgedd o oedrannau yn cydweithio â'i gilydd. Credwn yn gryf yma mai dyma'r ffordd orau i gael plant i feithrin perthynas dda â disgyblion o bob oedran yn yr ysgol.

Daeth Mrs Eilonwy Jones i feirniadu'r gystadleuaeth "Cerddor Ifanc". Dywedodd ei bod wedi mwynhau'r cystadlu yn aruthrol a bod safon yr offerynwyr yn uchel iawn. Enillwyd y wobr gan Emyr James wedi dataniad arbennig ar y clarinet.

Beirniadwyd y farddoniaeth a rhyddiaith Gymraeg gan Aled Gwyn. Dywedodd fod Leah Dafydd o Flwyddyn 7 yn llawn teilyngu gwobr llenor Cymraeg yr ysgol eleni.

Cyn iddi adael i fynd ar gyfnod mamolaeth, fe ddyfarnodd Mrs Rhian Griffiths y wobr ar gyfer llenor Saesneg y flwyddyn gyda'i chydweithwyr yn yr adran. Eleni, fe enillwyd y darian gan Alex Clatworthy o Flwyddyn 9. Llongyfarchiadau gwresog i Alex a Leah.

Gan fod y stadiwm wedi ei hadeiladu, roeddem yn credu y byddai'n beth da petai'r disgyblion yn dysgu un o emynau mwyaf traddodiadol Cymru sef "I Bob Un Sydd Ffyddlon". Beirniadwyd yr eitem hon, a nifer o eitemau cerddorol eraill, gan Euros Rhys. Penderfynodd Euros mai llys Nantlais oedd yn fuddugol eleni.

Erbyn diwedd y dydd ar ddydd Gwener, roedd pawb ar bigau'r drain gan fod y marciau yn agos iawn rhwng y llysoedd. Y buddugol oedd ... Curig ! (Unwaith eto!) Mae'n rhaid dweud bod safon y cystadlaethau yn arbennig o uchel ond rwyf yn siŵr bod Rachel Solomon (Eden) a Menna Gwyn wedi haeddu paned o goffi a *Crunchie* ar ôl beirniadu'r eitemau dosbarth a'r sgets! Cafodd y disgyblion ddiwrnod ardderchog ac yn awr fe edrychwn ymlaen yn eiddgar at Eisteddfod yr Urdd.

**Siriol Wilde (Pennaeth Cynorthwyol)**

## CHWARAEON PLASMAWR

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae llwyddiannau timau Plasmawr wedi cynyddu, yn enwedig i fechgyn rygbi Blynyddoedd 7 a 10. Yn anffodus nid yw bechgyn Blwyddyn 8 eto wedi profi buddugoliaeth ond dyfal donc! Ar y caeau hoci mae merched Blynyddoedd 7, 8 a 9 wedi ennill yn erbyn Ysgol Gwynllyw mewn gêm gyfeillgar tra bod y merched pêl-rwyd wedi cael dwy gêm gyfartal. Ar y caeau pêl-droed fe wnaeth tîm Blwyddyn 9 a 10 guro Ysgol Glantaf ond colli wnaeth tîm Blynyddoedd 7 a 8 yng Nghystadleuaeth Pêl-droed yr Urdd.

Hoffwn longyfarch rhai o unigolion dawnus yr ysgol sydd wedi eu dewis i gynrychioli Plasmawr mewn nifer o wahanol feysydd. Bydd Gethin Thomas a Gemma Winstone yn cynrychioli Caerdydd a'r Fro ym mhencampwriaeth athletau dan do Cymru. Dewiswyd Gaia Angove yn aelod o garfan pêl-rwyd y sir dan 14 a Lowri Davies yn aelod o garfan datblygu y Sir dan 14 oed. Bydd Stacey Nelson a Lowri Davies yn cael y fraint o ddawnsio gyda chwmni "Diversions" yn Nôm y Mileniwm yn Llundain ddechrau mis Ebrill.

## TAITH YR ADRAN ADDYSG GREFYDDOL I AMSTERDAM



*Anne Frank ym Mai 1942*

Mae dysgu am ragfarn hiliol a chrefyddol yn rhan annatod o waith athrawon Addysg Grefyddol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Dros y blynyddoedd, mae hiliaeth wedi cynyddu'n fawr yma yn y ddinas. Fe glywir yn aml am ymosodiadau direswm yn y gymuned. Cred yr adran yn gryf y dylid codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'r broblem, felly rydym wedi ychwanegu modiwl ar ddyddiadur Anne Frank i'n cynlluniau gwaith.

Yn ystod yr hanner tymor, fe aeth hanner cant o Flwyddyn 9 i Amsterdam gyda'u hathrawon Addysg Grefyddol, sef Mrs Siriol Wilde a Miss Margaret Davies ac aelodau eraill o staff yr ysgol, i ymweld â chartref Anne Frank ac ardaloedd Iddewig eraill yn y ddinas. Wedi brecwast, fe lwyddodd y 54 ohonom i ddal tram i'n tywys i dŷ Anne. Roeddem yno erbyn naw y bore cyn i'r tyrfaoedd gyrraedd. Y geiriau cyntaf a welodd y disgyblion oedd :

***"Rydw i'n gobeithio y galla i ymddiried y cyfan i ti, gan nad ydw i erioed wedi gallu ymddiried yn neb o'r blaen ac yn gobeithio y byddi di'n gefn ac yn gysur mawr i mi. "***

Cerddodd y disgyblion yn araf ac yn dawel o amgylch cartref Anne a'i theulu. Roedd yn frawychus i weld bod lluniau o sêr y ffilmiau a phobl enwog megis y Frenhines ar wal ei hystafell wely. Roedd yr wybodaeth hon yn dystiolaeth o'r ffaith mai ychydig iawn o amser yn ôl oedd yr holocost. Wedi i ni weld ei chartref, fe aethom i'r amgueddfa a oedd yn gyfres o luniau a delweddau o gyfnod olaf y teulu yng ngwersylloedd Bergen-Belsen ac Auschwitz. Roedd yn drist wybod fod y teulu ar y trên olaf i Auschwitz cyn i'r rhyfel ddod i ben .

Mae'r dyddiadur wedi ei gyfieithu i sawl iaith a braf oedd gweld fersiwn Cymraeg Eigra Lewis Roberts o'r dyddiadur yn siop lyfrau'r amgueddfa. Ni ddylid gadael Amsterdam heb ymweld â chartref Anne Frank a chofio am y cyfnod cythryblus yma ym mywydau cynifer o bobl hanner cant o flynyddoedd yn ôl :

***"Fedra i ddim dweud gymaint mae methu mynd allan yn fy ngofidio i, ac mae gen i ofn dychrynllyd i'n cuddfan ni gael ei darganfod ac y byddwn yn cael ein saethu. Mae hynny, wrth gwrs, yn rhagolwg eitha digalon."***

Wedi hyn, cafodd y disgyblion bryd o fwyd *kosher* yn yr Amgueddfa Iddewig cyn ymweld â'r Synagog Uniongred a Rhyddfrydol Iddewig. Wedi hyn, aethom o amgylch y camlesi ar gwch o dan arweiniad Mandy. Erbyn diwedd ein cyfnod ar y cwch, fe ddysgodd Mandy nifer o eiriau Cymraeg!

Cafodd y disgyblion gyfle i ymlacio wrth fowlio yn y nos. Diddorol oedd nodi'r trawstoriad eang o bobl a oedd yn byw yn y ddinas. Roedd y mwyafrif helaeth ohonynt yn bobl deuluol, diwylliedig, ond roedd nifer sylweddol o bobl ifainc yn perthyn i'r "diwylliant newydd" o ddarganfod hapusrwydd sydyn, dros dro, ym myd cyffuriau. Roedd yn anodd cysylltu'r math yma o fywyd gyda'r math o fywyd y bu'r teulu Frank a nifer o deuluoedd Iddewig eraill yn byw yn Amsterdam. Wedi dweud hyn, roedd yn brofiad arbennig i fynd i'r ddinas ac edrychwn ymlaen yn arw at gynllunio'r daith nesaf yno.

**Siriol Wilde a Margaret Davies**
**(Yr Adran Addysg Grefyddol)**

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## Pêl-droed

### Caerdydd, Cymru a Ryan Giggs



'Does dim angen arbenigwr i sylweddoli fod brwydr aruthrol o flaen Caerdydd os yw am aros yn yr ail adran ar ddiwedd y tymor. Mae ymgais Clive Sullivan a'i griw i brynu'r clwb wedi methu i bob golwg: Samesh Kumar, y cyn-gadeirydd, yw'r maen tramgwydd, ac mae diffyg arian yn broblem gynyddol i'r cadeirydd a'r cyfarwyddwyr presennol er pob ymdrech ac ewyllys o'i heiddo.

Mae Frank Burrows wedi ymadael, a Billy Ayre ei eilydd bellach wrth y llyw - o leiaf tan ddiwedd y tymor - a thrist yw'r rhagolygon. Mae record Caerdydd yn dyst o'u cyflwr: un fuddugoliaeth yn unig yn y 13 gêm cynghrair ddiwethaf a sgorio ond 6 gôl yn y gêmau hyn; ac mae'r angen am flaenwr cyflym a all sgorio yn amlwg.

Y gwirionedd yw bod chwaraewyr o'r fath yn brin eithriadol - maen nhw hefyd yn gostus ac mae'n gwbl amlwg nad oes gan y clwb yr arian i ddenu'r fath chwaraewyr, yn enwedig o gofio bod pob tîm yng Nghynghrair Lloegr yn chwilio am chwaraewyr cyffelyb. Byddai mwy o goliau o ganol cae hefyd o gymorth.

Beth am bolisi datblygu'r clwb. A fedr hyfforddiant ddatblygu chwaraewyr i'r tîm cyntaf? Wel, bernwch eich hunain. Dim ond un o'r tîm presennol mae'r clwb wedi ei ddatblygu. Mae'n hen, hen bryd gofyn, Paham?

Roedd buddugoliaeth i Marc Hughes yn ei gêm gyntaf yn rheolwr Cymru - hyn o 1-0 yn Qatar yn y Dwyrain Canol a John Robinson yn sgorio'r unig gôl ar ôl deng munud. Cyffredin oedd y perfformiad yn enwedig ar ôl i Gymru greu sawl cyfle cymharol hawdd ar safon ryngwladol. Mae'n wir bod y tymheredd yn yr 80au a'r maes yn anwastad ond mae'n amlwg bod gan Gymru gryn waith i'w gyflawni cyn gêmau agoriadol Cwpan y Byd ym mis Medi - wedi'r cyfan, tîm cyffredin iawn oedd Qatar.

Mae cyfle arall i arbrofi a phwyso a mesur pan fydd Cymru yn wynebu'r Ffindir yng Nghaerdydd ddiwedd Mawrth mewn gêm gyfeillgar arall. Ar ôl methu teithio i Qatar, tybed a fydd Ryan Giggs yn chwarae yn y gêm honno? Byddai'n hyfryd gweld y bachgen a aned yng Nghaerdydd yn y tîm.

Pan oedd Ryan yn 6 oed ymadawodd y teulu am Fanceinion ac yno chwaraeodd Ryan i dîm bechgyn ysgolion Manceinion a thîm ysgolion Lloegr pan oedd yn 15 oed, cyn ymuno â Manchester United. Cymro ydyw i'r carn er hynny, ac yn ymfalchïo mewn chwarae dros ei wlad. Mae'n ddealladwy pam mae ei glwb yn amharod i'w ryddhau i gêmau cyfeillgar, di-bwyntiau dros Gymru - wedi'r cyfan ei glwb sy'n ei dalu a'i gynnal, ac mae ganddo broblem gyda'i ben-glin, problem a all gynyddu wrth chwarae pob gêm y mae disgwyl iddo chwarae ynddi.


O ran ei adael allan o dîm Cymru - dim perygl! Mae e'n ben ac ysgwydd uwchlaw pob chwaraewr arall yn y tîm.

**Howard Spriggs**

### Al Fresco ar eich ôl!

Mae cwmni teledu Al Fresco yn chwilio am bobl i gymryd rhan mewn cyfresi newydd o'r rhaglenni 'Brodyr Bach', 'Ar y Bocs' a 'Cerdyn Post'. Os ydych â diddordeb, cysylltwch ar frys â Meinir Mai Jones, Al Fresco, 44 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9WJ (029-20726726).

## Y Bêl Hirgron



Drannoeth gornest Cwpan Cymru (y Seithfed Rownd) ysgrifennais y llith hon, ac roedd uchafbwynt y rownd yn ddiau ar gae Casnewydd - Casnewydd yn erbyn Caerdydd, y clybiau a chwaraeai'i gilydd bedair gwaith y tymor, cyn bod sôn am na Chwpan na rygbi proffesiynol. (Bu Cwpan cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, ond nid tan 1972 yn ein hoes ni.) Yn y cynghrair y tymor hwn yr oeddynt wedi ennill eu gêmau gartref (Casnewydd Sadwrn cyntaf y tymor o 18-13, a Chaerdydd ddechrau Rhagfyr o 26-22), ond yr oedd record Caerdydd hyd at yr ornest gwpan yn well o lawer na Chasnewydd. Gan nad oedd hi'n debyg y byddai Casnewydd yn diweddu'r tymor ymhlith y pedwar uchaf yn y cynghrair, rhaid oedd iddynt ennill y Cwpan er mwyn chwarae yng Nghwpan Ewrop y tymor nesaf - hynny yw, os bydd deiliaid y Cwpan yn un o'n pum clwb yn Ewrop (ar y pryd ni wybuwyd sut y penderfynid pa bump fyddai'n cystadlu).

Cystadleuaeth lem o'n blaen felly, a thros ddeng mil o wylwyr yn y maes yn bleidiol iawn dros eu timau, ac nid amharodd y tywydd gwlyb, gwyntog ar yr achlysur. Nid wyf fi'n hoff o wylio rygbi am hanner awr wedi pump o'r gloch yn y gaeaf, ac yn wir, nid oes neb arall hyd y gwelaf fi'n ei hoffi chwaith, ond:

"Tydi'r gwan, taw di â'r gwir,
Arian da a wrandewir"

ac mae arian y teledu'n dra phwysig i'r clybiau er mwyn iddynt dalu cyflog mawr i'w chwaraewyr a denu rhai tramor.

Gyda thorfeydd tebyg i honno yn yr ornest yng Nghasnewydd, y gobaith oedd y denid noddwyr i'r gystadleuaeth - ar y pryd ni welai neb reswm pam y dylai gyfrannu at ei chynnal. Yr oedd y sŵn yno'n anhygoel, ac fe effeithiai ar y chwaraewyr; yr oedd hi'n danllyd, ac weithiau byddai rhai'n mynd dros ben y llestri yn ogystal â mynd dros y ryciau a'r chwaraewyr oedd ar y llawr. Gyrrwyd Jason Forster oddi ar y maes yn yr hanner olaf ar ôl ffrwgwd ffyrnig. Tuag ugain munud o'r diwedd y digwyddodd hynny a'r sgôr yn 16-10, ond ni allai Caerdydd fanteisio ar chwarae yn erbyn saith blaenwr fel y dylent fod wedi ei wneud. A dyna hi, Casnewydd a aeth i'r god yn stiwdio S4C a thynnodd Ray Gravel ei rif a rhif Llanelli'n nesaf at ei gilydd, a daw gyrfa Cwpan Casnewydd i ben ar y Strade yn Rownd yr Wyth Olaf.

Er bod y Clwb wedi chwarae ag ymroddiad llawn, credaf fod tacteg Caerdydd yn hollol anghywir ar gyfer gornest yn y fath dywydd; yn ôl a glywais, yr oedd eu tacteg yn gwbl groes i'r hyn yr oedd eu hyfforddwyr wedi ei gynllunio. Ble mae synnwyr tactegol ein prif chwaraewyr, dywedwch? Cawn weld dro ar ôl tro chwaraewyr Cymru'n euog o chwarae'n ddiweledigaeth, ac yr oeddwn i'n ofni mai dyna a ddigwyddai yn Nhwicenham pan oedd *Y Dinesydd* yng nghrombil peiriant yr argraffu.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

## Ar y CYD...

yng ngofal Lynne Davies



Wel, mae'n swyddogol - dw i ddim yn ddysgwr bellach! Nage, nid am y Gymraeg rwy'n sôn - roedd hynny'n hawdd fel dŵr mewn cymhariaeth; o'r diwedd rwyf wedi perswadio arholwr ei bod hi'n ddiogel i 'ngadael i ar y ffordd ar fy mhen fy hunan a heb blatiau D. Ydw, rwyf wedi llwyddo yn fy mhrawf gyrru! Nid dyma yw'r lle i ddweud faint o amser mae hi wedi cymryd, na sawl gwaith dw i wedi ceisio - digon yw dweud bod pobl wedi dechrau galw Maureen arna' i... Gwnes i'r prawf yn Gymraeg, wrth gwrs. Mae'r Asiantaeth Safonau Gyrru yn gwella - er eu bod mor araf ag yr oeddwn i, bron - ac mae llinell ffôn Gymraeg erbyn hyn. Mae'r prawf ysgrifenedig i'w gael yn Gymraeg hefyd, ond rydym yn dal i aros iddyn nhw gyhoeddi llyfr yr atebion yn Gymraeg. Y cam nesa' fydd prynu car - dyna benbleth; pa fodel, pa faint, pa liw, pa oedran, pa bris? Yna mentro allan heb rywun wrth fy ochr yn fy atgoffa i edrych yn y drych, yn fy rhybuddio bod rhaid aros, yn adrodd rhigymau bach sy'n dweud pa gêr y dylech chi ei ddefnyddio... Dyma'ch rhybudd chi, felly - cadwch draw o Lanisien am sbel: wnewch chi ddim difaru!



Mae hen symbolau o Gymreictod yn dod i'r golwg yr adeg 'ma o'r flwyddyn. Y wisg draddodiadol, y delyn, y genhinen a'r cennin Pedr, heb sôn am y Ddraig Goch a'r anthem genedlaethol. Diddorol yw meddwl nad oedd yr un o'r rhain yn bwysig iawn tan ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan aeth rhai pobl ddylanwadol, fel Arglwyddes Llanofer, ati i ailgymreigio Cymru. Roedden nhw'n poeni y byddai'r hen ffyrdd Cymraeg yn diflannu'n gyfan gwbl os nad oedden nhw'n gwneud rhywbeth, a dyna felly pam y tyfodd y mudiad eisteddfodol a pham y cyhoeddwyd llawer iawn o hen lenyddiaeth Gymraeg am y tro cyntaf. Roedd sôn mawr am y derwyddon i ddenu twristiaid o Loegr, a chrewyd hefyd storïau fel hanes Gelert a'r blaidd. Pethau ffug law yn llaw â phethau go-iawn, ond erbyn hyn mae'r fytholeg ei hun wedi dod yn rhan o'n hanes.




**Geirfa**

swyddogol - *official*
mewn cymhariaeth - *in comparison*
arholwr - *examiner*
diogel - *safe*
Asiantaeth Safonau Gyrru - *Driving Standards Agency*
cyhoeddi - *to publish*
penbleth - *puzzle, headache*
mentro - *to venture*
rhigwm/rhigymau - *rhymes*
cadw draw - *to keep clear*
difaru - *to regret*
dylanwadol - *influential*
ailgymreigio - *"rewelshify"*
derwyddon - *druids*
mytholeg - *mythology*

**Digwyddiadau CYD**

Dydd Llun ola'r mis - Pen & Wig, 1.00 - 2.00
Nos Fercher - Tafarn y Tavistock, Stryd Bedford - 9.00
Nos Iau - Gwesty Parc y Rhath, Lôn y Plwca (*City Rd*) - 9.00
Dydd Gwener - Y Bont-faen, Tafarn y Dug - 12.00
*Am fanylion pellach ffoniwch Padi Phillips - 029 20312293*

## Y Border Bach

**gan Hwn a Hon**



A ydyw'ch 'border bach' chi yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn y cysgod? Gan ein bod yn byw mewn dinas mae'n fwy na phosibl ei fod yng nghysgod adeilad cyfagos neu goeden wedi tyfu'n rhy fawr. Ond peidiwch â phoeni, mae digon o blanhigion cyffredin i'w cael sy'n gallu ymdopi â'r fath sefyllfa a chreu lliw a diddordeb drwy'r flwyddyn.

Yn gyntaf mae yna lwyni bythwyrdd fel y llawryf *Aucuba japonica*, yn enwedig y rhai brith. Mae'r llwyn hwn yn hanu'n wreiddiol o Siapan lle mae'n tyfu mewn coedwigoedd agored. Mae gen i un yn tyfu rhwng y sied a pherth o'r *Leylandii* enwog, cornel sydd byth yn gweld haul o un pen o'r flwyddyn i'r llall. Mae dail hwn yn smotiog fel petai rhywun wedi tasgu paent melyn drostynt. Mae'n goleuo'r gornel hyd yn oed yng nghanol gaeaf.

O blith y planhigion lluosflwydd gellwch ddewis o deulu pig yr aran (*Cranesbill geranium*) yn enwedig *Geranium maccrorhigum*, sy'n cadw ei ddail dros y gaeaf ac yn blodeuo ym mis Mai â blodau bach pinc neu wyn. Mae hwn yn un hawdd i'w rannu. Chwiliwch am rywun a all roi darn i chi!

Un o'm ffefrynnau yn y cysgod yw balchder Llundain - *Saxifraga x urbium* - planhigyn digon cyffredin mewn gerddi gynt. Mae ganddo gylchoedd o ddail isel drwy'r flwyddyn, ac ym mis Mai bydd ei flodau fel cwmwl pinc uwch ei ben. Mae'n un da i'w gael ar hyd ymyl y border.

Yna mae teulu yr *Hosta* a dyfir yn bennaf am eu dail, er bod ganddynt flodau gwyn neu borffor yn yr haf. Mae'r dail yn marw'n ôl dros y gaeaf ac yn anffodus hefyd mae'r malwod yn hoff iawn ohonynt!

Os am flodau mwy lliwgar mae'r pabi Cymreig *Meconopsis cambrensis* yn ddigon hapus yn y cysgod. Mae'n cynhyrchu blodau melyn neu oren ar ddechrau'r haf. Os ydych yn hoff o wyrddni a ffurf dail yna gallwch dyfu rhedyn fel *Polystichum setiferum* sy'n cadw'i ddail dros y gaeaf cyn cynhyrchu rhai newydd yn y gwanwyn.

Mi fydd y planhigion yma i gyd yn creu diddordeb yn y border drwy'r flwyddyn, ond os am fwy o sioe yn yr haf y Betsan Brysur, *Impatiens*, yw'r dewis gorau.

# REES WOOD a TERRY

A ydych chi wedi cael **damwain?**

Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222

# SWYDD NANI

Yn eisiau ym Mhenarth, nani Gymraeg llawn-amser i ofalu am fabi deg mis a bachgen pedair oed.

Oriau swyddfa.

Profiad a chymwysterau yn ddymunol.

**Ffoniwch**
**(029 20) 711681**

# CYNORTHWY-YDD CARTREF

**Yn eisiau ym Mhenarth.**

Gofal dau blentyn (10 a 12 oed) ar ôl ysgol a gwaith tŷ ysgafn.

*Oriau: 3.30 - 6.00 p.m. Llun - Gwener*

Gyrrwr a char ei hunan yn hanfodol.

**Ffoniwch**
**Caerdydd 878032 (oriau gwaith)**
**neu 702050 (ar ôl 6.00 p.m.)**



## A fyddech chi'n pleidleisio i'r ddau yma?

Dilynwch hynt a helynt

"Aelodau'r Cynulliad",

Wyndham Mainwaring a R Ll Hughes,

yn nrama gomedi newydd S4C,

**Yr Asembli.**

**Yr Asembli**


**8.30**

**Bob Nos Iau**

**Yn cychwyn 30 Mawrth**

www.s4c.co.uk

S4C




**PRIFYSGOL CAERDYDD**

# *Ewch Gam Ymhellach!*

Mae Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd yn adran fywiog a blaengar. Dyfarnwyd Graddfa 5 iddi yn yr asesiad diweddaraf o ansawdd ymchwil prifysgolion Prydain, sy'n ei gosod ar y brig fel canolfan ymchwil ym maes y Gymraeg a'i llenyddiaeth.

Mae galw cynyddol yn y Gymru gyfoes am gymwysterau uwch yn y Gymraeg. O'r herwydd, mae'r Adran yn cynnig nifer o gyrsiau ôl-raddedig (yn llawn-amser neu yn rhan amser):

## MA yn y Gymraeg

Mae'r cwrs yn cynnwys rhai modiwlau craidd ar sgiliau ymchwil ac ysgolheictod y Gymraeg ynghyd â dewis da o fodiwlau eraill sy'n adlewyrchu rhychwant eang diddordebau ymchwil staff yr Adran. Treulir rhan olaf y cwrs yn llunio traethawd sylweddol ar bwnc arbenigol.

## MA mewn Astudiaethau Gwerin

Cwrs arloesol sy'n unigryw i Gaerdydd. Fe'i dysgir ar y cyd ag Amgueddfa Werin Cymru. Gellir dilyn y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Astudir amrywiol weddau ar ein diwylliant gwerin, gan gynnwys theori a methodoleg astudiaethau gwerin, y chwedl werin, bywyd yn y gymuned Gymreig, iaith a hunaniaeth.

## MA mewn Astudiaethau Celtaidd Cynnar/ MA mewn Astudiaethau Prydeinig Canoloesol

Mae Adran y Gymraeg yn cyfrannu modiwlau i'r cyrsiau hyn.

## Diploma ôl-raddedig mewn Cyfieithu

Nod y cwrs hwn yw porthi anghenion galwedigaethol y Gymru gyfoes ynghyd â hyrwyddo cyfieithu fel disgyblaeth academaidd.

## Graddau MPhil a PhD

Gellwch ymgymryd ag ymchwil llawn-amser neu ran amser sy'n arwain at raddau MPhil a PhD, gan ysgrifennu traethawd hir ar bwnc arbenigol dan gyfarwyddyd aelod o staff yr Adran.

Cryfderau ymchwil yr Adran yw llenyddiaeth fodern a chanoloesol, beirniadaeth destunol a golygu, dehongli diwylliannol, theori a beirniadaeth lenyddol, ethnoleg, ieithyddiaeth hanesyddol a chyfoes, sosioieithyddiaeth, geoieithyddiaeth, a chynllunio ieithyddol.

*Cysylltwch â ni am ragor o fanylion am ein cyrsiau ôl-raddedig ac am ein cyrsiau BA Cymraeg (rhan-amser a llawn-amser):*

**Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd,**
**Blwch SP 910, Caerdydd CF10 3XW**
Ffôn: 029-20874843; Ffacs: 029-20874604
E-bost: cymraeg@caerdydd.ac.uk
http://www.cf.ac.uk/uwc/cymraeg/

*Am ragor o fanylion am ein cyrsiau dysgu Cymraeg i oedolion, cysylltwch a'n Canolfan Dysgu Cymraeg, 42 Park Place, Parc Cathays, Caerdydd (029-20874710).*